***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1897

## Gorchymyn Crancod Heglog Rhy Fach (Cymru) 2002

**Dehongli**

**2.** —Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cranc heglog" ("*spider crab*") yw cranc o'r rhywogaeth *Maia squinado*;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967;

ystyr "maint" ("*size*") mewn perthynas â chranc heglog, yw hyd y gragen, ar hyd y llinell ganol, o ymyl y gragen rhwng y gylfin hyd at ymyl cefn y gragen a chaiff ei fesur fel y dangosir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y môr tiriogaethol cyfagos at Gymru" ("*the territorial sea adjacent to Wales*") yw'r môr cyfagos at Gymru allan cyn belled â ffin forol y môr tiriogaethol.